# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R Meirion Jones, Bryan Owen a P S Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (DJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 – Ailstrwythuro Uwch Reolwyr a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2019.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn ôl y diffiniad ym Mharagraff 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 AILSTRWYTHURO UWCH REOLWYR**

Cyflynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr ynglŷn â'r uchod.

Cafwyd diweddariad gan yr Uwch Swyddog Adnoddau Dynol ar ganlyniad y broses ailstrwythuro Uwch Reolwyr. Dywedodd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn a gynhelir ar 1 Gorffennaf, 2019 ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r strwythur uwch reoli. Roedd yr holl ddisgrifiadau swydd yn y strwythur

Uwch Reolwyr wedi cael eu gwerthuso'n unol â Chynllun Arfarnu Swyddi'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) ar gyfer Uwch Swyddogion a'u dilysu'n allanol gan y CLlL. Cafodd o sgorau wedyn eu trosi'n strwythur cyflogau a adolygwyd gan y CLlL cyn eu cyflwyno i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:-**

- **Dynodi swydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 cyfredol yn Gyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog Adran 151;**
- **Y bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Penodiadau a gynhelir ar 1 Gorffennaf, 2019 yn dilyn cwblhau'r adolygiad o'r strwythur uwch reolwyr.**

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn ôl y diffiniad ym Mharagraff 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6 PENODIADAU STAFF**

Derbyniwyd 3 chais ar gyfer y swydd uchod.

**PENDERFYNWYD y bydd 2 gais yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses benodi.**

**7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn ôl y diffiniad ym Mharagraff 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**8 UNRHYW SWYDDI PELLACH I'W HYSBYSEBU**

Rhoes y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid adroddiad llafar ar yr uchod.

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r awdurdod i Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Portffolio perthnasol a'r Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid i drafod yr amser priodol i hysbysebu'r swydd a drafodwyd yn y cyfarfod.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**